



Bwyd a Diod Cymru  
Rhwydwaith Clwstwr  
Food & Drink Wales  
Cluster Network



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **PARTNERIAETH ARLOESI AR WAITH**

## **NODIADAU ESBONIADOL Y FFURFLEN GAIS**

**Dogfen IP\_WG\_004**

**Gorffennaf 2018**



**Bwyd a Diod Cymru  
Food & Drink Wales**

## **CYFLWYNIAD**

Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer y Ffurflen Gais yn egluro sut i gwblhau'r Ffurflen Gais ac yn manylu ar y fethodoleg sgorio a'r meini prawf asesu. Bydd pob cais yn cael ei drin yn gyfrinachol.

Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus. Bydd hefyd angen i chi gyfeirio at y canlynol:

- Briff y Prosiect (IP\_WG\_001)
- Nodiadau Esboniadol (IP\_WG\_002)
- Ffurflen Gais (IP\_WG\_003)

## **AMSERLEN**

Mae'r broses ymgeisio yn cau am **12yp ar 28 Medi 2018**.

## **SUT I YMGEISIO**

- Ewch i'r ddogfen Nodiadau Esboniadol (IP\_WG\_002) am fanylion llawn ar sut i wneud cais.
- Mae'n rhaid cwblhau'r ceisiadau gan ddefnyddio'r Ffurflen Gais (IP\_WG\_003).
- Dylai ymgeiswyr gwblhau'r cais yn electronig. Gellid ehangu adrannau yn ôl y gofyn. Cofiwch fod yn rhaid darparu'r holl wybodaeth o fewn y ffurflen gais, ac eithrio cwestiynnau 8 ac 11 ble caniateir atodiadau yn ogystal â'r testun sydd yn y ffurflen gais. Ni dderbynnir dogfennau ychwanegol na gwybodaeth ategol.
- Dylid e-bostio ceisiadau sydd wedi'u cwblhau ac wedi'u nodi'n glir fel **CAIS PARTNERIAETH ARLOESI AR WAITH** at [FoodBIS@wales.gsi.gov.uk](mailto:FoodBIS@wales.gsi.gov.uk)
- Dylid cyflwyno ceisiadau ar e-bost yr ymgeisydd neu gan asiant gyda chopi sydd wedi'i sganio a'i arwyddo.
- Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr gwblhau'r datganiad cyn cyflwyno'r Ffurflen Gais.
- Mae gan y Ffurflen Gais uchafswm geiriau ar gyfer ateb pob cwestiwn; os ydych chi'n cyflwyno ateb sydd yn fwy na'r cyfanswm hwn, neu'n cyflwyno atodiadau sy'n fwy na'r uchafswm a osodwyd, ni fydd yn cael ei ddarllen na'i asesu.
- Dylid cwblhau'r ffurflen gais gan ddefnyddio maint ffont nad yw'n llai na 10 (Arial). Defnyddiwch acronymau cyn lleied â phosib. Dim ond pan fydd term yn cael ei ddefnyddio'n aml drwy'r cais y dylech ddefnyddio acronym. Os ydych chi'n dewis defnyddio acronym, peidiwch â chymryd yn ganiataol fod y darlennydd yn deall ei ystyr, a sicrhewch eich bod yn rhoi diffiniad ohono.

- Er mwyn i'ch cais cael ei dderbyn mae'n rhaid i chi gyflwyno'r holl wybodaeth sydd ei angen. Mae hyn yn cynnwys pob maes gofynnol yn y ffurflen gais a bydd methu cwblhau'r meysydd hyn yn golygu y bydd eich cais yn cael ei wrthod ar y sail ei fod yn anghyflawn.
- Ni fydd ceisiadau yn cael eu derbyn ar ôl y dyddiad cau a benodwyd.
- PEIDIWCH AG ANFON CEISIADAU CYFLAWN DRWY'R POST NAC UNRHYW FFORDD ARALL NA NODIR UCHOD.

## **METHODOLEG A MEINI PRAWF SGORIO**

Bydd prosiectau yn cael eu sgorio gan ddefnyddio'r system sgorio ganlynol. Mae manylion pellach ar feini prawf dethol pob cwestiwn ar gael yn y nodiadau esboniadol. Gwybodaeth berthnasol o fewn y cais yn unig y gellir ei ystyried.

	<b>Meini prawf</b>	<b>Pwysoli</b>	<b>Sgôr</b>
	<b>Cam 1 Aseiad cychwynnol</b>		<b>100%</b>
1	Manylion y prosiect	Heb ei sgorio	
2	Manylion y prif ymgeisydd	Heb ei sgorio	
3	Statws busnes y prif ymgeisydd	Heb ei sgorio	
4	Manylion partneriaid	Heb ei sgorio	
5	Teitl a chrynodeb i'w gyhoeddi	Heb ei sgorio	
6	Her ac angen	3	
7	Dull ac arloesi	3	
8	Llwybr i'r farchnad a thwf	3	
9	Manylion cydweithredu, tîm a'r rolau	3	
10	Effaith a gweithgarwch dilynol	3	
11	Rheoli prosiect	2	
12	Polisi	Heb ei sgorio	
13	Cyllid y prosiect	2	
	<b>Cam 2 Cyfweliad</b>		<b>Gwirio sgôr</b>

**Ceir esboniad ar gyfer adrannau unigol y ffurflen gais yn ogystal â'r meini prawf dethol isod:**

### **1. Manylion y prosiect (heb ei sgorio)**

#### **Teitl y Prosiect (gorfodol)**

Darparwch deitl y prosiect. Dylai fod yn gryno ac yn ddisgrifiad clir o'r prosiect. Dylai gynnwys geiriau allweddol sy'n berthnasol i'r prosiect.

#### **Hyd y Prosiect (gorfodol)**

Dylid cynnal astudiaethau dichonolrwydd am 4 mis.

### **Cyfanswm Cost y Prosiect (£) (gorfodol)**

Dylai prosiectau ddatgan cyfanswm cost arfaethedig y prosiect (gan gynnwys TAW). Dylai hyn fod yn gyfanswm cyfraniad grant y rhaglen a chyfraniad ariannol yr ymgeisydd.

### **Grant a geisir amdano (£) (gofynnol)**

Nodwch y grant a geisir amdano ar gyfer y prosiect dichonolrwydd. Uchafswm y cyfraniad grant yw £75,000 y prosiect (gan gynnwys TAW).

### **Swm arian cyfatebol (£) (gorfodol)**

Nodwch y swm o arian cyfatebol (**gan gynnwys TAW**). Mae'n rhaid i brosiectau sicrhau 25% o gyfanswm y costau cymwys. Mae'n rhaid i'r arian cyfatebol gael ei ddarparu ar ffurf cyfraniadau ariannol gan y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector.

### **Busnes y Prif Ymgeisydd (gorfodol)**

Nodwch enw busnes y prif ymgeisydd. Mae'n rhaid i brif ymgeiswyr fod yn aelodau o'r Rhwydwaith Clwstwr Bwyd a Diod a chofrestru fel Busnes Bach a Chanolig (SME) yng Nghymru.

### **Partneriaid cydweithredol (gorfodol)**

Enwch bartneriaid cydweithredol y prosiect. Mae'n rhaid i brosiectau ganolbwyntio ar fusnes a chynnwys o leiaf un partner arall a allai fod yn fusnesau, sefydliadau ymchwil a sefydliadau'r sector cyhoeddus.

### **2. Manylion y prif ymgeisydd (gorfodol – heb ei sgorio)**

Nodwch enw'r prif fusnes a manylion eraill fel y gofynnir ar y Ffurflen Gais.

### **3. Statws busnes y prif ymgeisydd (gorfodol – heb ei sgorio)**

Cyflwynwch fanylion statws busnes y prif ymgeisydd, a manylion eraill fel y gofynnir ar y Ffurflen Gais.

### **4. Manylion Partneriaid (gorfodol – heb ei sgorio)**

Nodwch enw pob partner o fewn y prosiect a'r math o sefydliad, cyfeiriad cofrestredig a phrif weithgarwch neu sector.

### **5. Teitl a chrynodeb i'w gyhoeddi (gorfodol – heb ei sgorio)**

Rhowch ddisgrifiad byr ac addas i'w gyhoeddi ar gyfer y prosiect. Os fydd eich prosiect yn llwyddiannus, gallai'r wybodaeth hon gael ei gyhoeddi ar ôl cadarnhau'r dyfarniad. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth sy'n gyfrinachol yn fasnachol yn yr adran hon. Rydym ni'n cadw'r hawl i wirio'r disgrifiad cyn ei gyhoeddi os oes angen, ond byddwn yn ymgynghori â chi am unrhyw newidiadau (uchafswm o 200 gair).

### **6. Her ac angen (gorfodol – wedi'i sgorio)**

Bydd prosiectau sy'n medru dangos effaith mwyaf yr heriau cymdeithasol neu sector cyhoeddus, neu broblemau cyffredin sy'n wynebu grŵpiau bach o fusnesau yn glir yn cael blaenoriaeth. Bydd yr heriau ac angen sy'n mynd i'r afael ag amcanion thematig yr her yn sgorio'n uwch (uchafswm o 400 gair).

Sgôr 4 Rhoddir esboniad clir, gan gynnwys tystiolaeth glir, o effaith yr her neu broblem ac mae'r her a'r angen a ganfyddir yn mynd i'r afael ag amcanion thematig y rhaglen.

Sgôr 3 Rhoddir esboniad, gan gynnwys tystiolaeth rannol, o effaith yr her neu broblem ac mae'r her a'r angen a ganfyddir yn mynd i'r afael ag amcanion thematig y rhaglen.

Sgôr 2 Rhoddir esboniad prin, gan gynnwys tystiolaeth rannol, o effaith yr her neu broblem ac mae'r her a'r angen a ganfyddir yn mynd i'r afael â rhai o amcanion thematig y rhaglen.

Sgôr 1 Ni roddir llawer o wybodaeth ac nid oes digon o dystiolaeth o effaith yr her neu broblem. Mae'r her ac angen a ganfyddir yn mynd i'r afael â rhai o amcanion thematig y rhaglen.

Sgôr 0 Ni roddir gwybodaeth ac nid oes tystiolaeth o effaith yr her neu broblem. Nid yw'r her ac angen a ganfyddir yn mynd i'r afael ag amcanion thematig y rhaglen.

## **7. Dull ac arloesi (gorfodol – wedi'i sgorio)**

Mae angen i brosiectau ddiffinio'n glir y dull o fynd i'r afael â'r her neu broblem a ddiffinir. Mae Arloesi'n cael ei ddisgrifio fel y broses o drosglwyddo syniad neu ddyfais newydd yn gynnyrch neu farchnad. Gallai hefyd gyfeirio at lunio proses newydd. Bydd y prosiect sy'n dangos y cysyniadau mwyaf arloesol yn cael blaenoriaeth (uchafswm o 400 gair).

Sgôr 4 Rhoddir esboniad clir o'r dull o fynd i'r afael a'r her neu'r broblem a ddiffiniwyd. Mae'r ateb a gynigiwyd yn arloesol iawn ac yn cynnig datrysiad clir i'r her/ problem a ganfyddir.

Sgôr 3 Rhoddir esboniad o'r dull o fynd i'r afael a'r her neu'r broblem a ddiffiniwyd. Mae'r ateb a gynigiwyd yn arloesol ac yn cynnig datrysiad i'r her/ problem a ganfyddir.

Sgôr 2 Rhoddir esboniad cyfyngedig o'r dull o fynd i'r afael a'r her neu'r broblem a ddiffiniwyd. Mae'r ateb a gynigiwyd yn darparu rhai cysyniadau arloesol ac yn cynnig datrysiad rhannol i'r her/ problem a ganfyddir.

Sgôr 1 Ni roddir llawer o esboniad o'r dull o fynd i'r afael a'r her neu'r broblem a ddiffiniwyd. Mae diffyg cysyniadau arloesol yn yr ateb a gynigiwyd ac mae'n cynnig datrysiad cyfyngedig i'r her/ problem a ganfyddir.

Sgôr 0 Ni roddir esboniad o'r dull o fynd i'r afael a'r her neu'r broblem a ddiffiniwyd. Nid oes gan yr ateb a gynigiwyd gysyniadau arloesol ac nid yw'n darparu datrysiad i'r her/ problem a ganfyddir.

## **8. Manylion cydweithredu, tîm a'r rolau (gorfodol – wedi'i sgorio)**

Mae cydweithio rhwng diwydiannau, y byd academaidd a'r llywodraeth yn creu mwy o gyfleoedd ac yn hyrwyddo arloesedd. Bydd prosiectau sy'n cynnwys nifer uchel o bartneriaid cydweithredol ar draws y diwydiant, y byd academaidd a'r sector cyhoeddus yn derbyn y sgôr uchaf. Mae gweithlu medrus yn rhagofyniad yn y diwydiant er mwyn cynnyddu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd a hybu arloesedd a thwf.

Mae angen i brosiectau ddangos fod gan y tîm arbenigedd perthnasol i ddatblygu'r arloesedd a gynnigir (uchafswm o 400 gair).

Sgôr 4 Rhoddir esboniad clir o swyddogaeth y partneriaid o fewn y prosiect. Mae gan y prosiect dros 4 partner ar draws y diwydiant, y byd academiaidd neu'r sector cyhoeddus. Ceir dystiolaeth o swyddogaeth tîm y prosiect ac mae'n amlwg fod gan y tîm y sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu'r arloesedd a gynnigir.

Sgôr 3 Rhoddir esboniad o swyddogaeth y partneriaid o fewn y prosiect. Mae gan y prosiect dros 3 partner ar draws y diwydiant, y byd academiaidd neu'r sector cyhoeddus. Ceir dystiolaeth o swyddogaeth tîm y prosiect ac mae gan y tîm y sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu'r arloesedd a gynnigir.

Sgôr 2 Rhoddir esboniad cyfyngedig o swyddogaeth y partneriaid o fewn y prosiect. Mae gan y prosiect dros 2 partner ar draws y diwydiant, y byd academiaidd neu'r sector cyhoeddus. Ceir ychydig o dystiolaeth o swyddogaeth tîm y prosiect ac mae gan y tîm mwyafrif o'r sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu'r arloesedd a gynnigir.

Sgôr 1 Ni roddir llawer o esboniad o swyddogaeth y partneriaid o fewn y prosiect. Mae gan y prosiect dros 2 partner ar draws y diwydiant, y byd academiaidd neu'r sector cyhoeddus. Ceir dystiolaeth gyfyngedig o swyddogaeth tîm y prosiect ac nid oes gan y tîm yr holl sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu'r arloesedd a gynnigir.

Sgôr 0 Ni roddir esboniad o swyddogaeth y partneriaid o fewn y prosiect neu mae'r prosiect yn cynnwys busnes y prif ymgeisydd yn unig. Nid oes dystiolaeth o swyddogaeth tîm y prosiect ac nid oes gan y tîm y sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu'r arloesedd a gynnigir.

Mae'n bosibl y byddech yn dymuno cynnwys atodiad i gefnogi eich ateb, hyd at 2 dudalen o hyd. Dylid cadw atodiadau ar ffurf PDF.

## **9. Llwybr i'r farchnad a thwf (gorfodol – wedi'i sgorio)**

Mae angen i brosiectau ddisgrifio'r llwybr i'r farchnad a'r cynllun i hybu twf yn glir. Bydd cynllun clir yn galluogi prosiectau i ddangos sut i wneud y mwyaf o gyfleoedd Masnachu neu Allforio'r DU. Bydd prosiectau sy'n medru dangos llwybr clir i'r farchnad a chynnydd mewn twf drwy'r arloesedd a gynnigir yn cael blaenoriaeth (uchafswm o 400 gair).

Sgôr 4 Rhoddir esboniad clir o'r llwybr i'r farchnad a chynlluniau i gynnyddu twf, gan gynnwys dystiolaeth o sut fydd rhagamcaniad disgwylidig y trosiant o dros 50% yn cael ei gyflawni o fewn tair blynedd i gwblhau'r prosiect.

Sgôr 3 Rhoddir esboniad o'r llwybr i'r farchnad a chynlluniau i gynnyddu twf, gan gynnwys dystiolaeth o sut fydd rhagamcaniad disgwylidig y trosiant sydd rhwng 25% a 50% yn cael ei gyflawni o fewn tair blynedd i gwblhau'r prosiect.

Sgôr 2 Rhoddir esboniad cyfyngedig o'r llwybr i'r farchnad a chynlluniau i gynnyddu twf, gan gynnwys dystiolaeth o sut fydd rhagamcaniad disgwylidig y trosiant sydd rhwng 15% a 25% yn cael ei gyflawni o fewn tair blynedd i gwblhau'r prosiect.

Sgôr 1 Ni roddir llawer o esboniad o'r llwybr i'r farchnad a chynlluniau i gynnyddu twf, gan gynnwys tystiolaeth o sut fydd rhagamcaniad disgwylidig y trosiant hyd at 25% yn cael ei gyflawni o fewn tair blynedd i gwblhau'r prosiect.

Sgôr 0 Ni roddir esboniad o'r llwybr i'r farchnad na chynlluniau i gynnyddu twf, ni ddisgwylir cynnydd mewn trosiant neu nid oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r cynnydd a gynnigir.

### **10. Effaith a gweithgarwch dilynol (gorfodol – wedi'i sgorio)**

Mae angen i brosiectau ddisgrifio'r effaith ddisgwylidig a'r gweithgarwch dilynol posib a ragfyneir o'r prosiect yn glir. Mae angen i ymgeiswyr nodi beth fydd yn cael ei baratoi fel rhan o'r prosiect; p'run ai yw'n adroddiad, cyflwyniad, arddangosiad/ brasfodel. Bydd y prosiect sy'n medru dangos sut fydd y grant yn arwain at y cynnydd mwyaf yn derbyn y sgôr uchaf (uchafswm o 400 gair).

Sgôr 4 Rhoddir esboniad clir o'r effaith ddisgwylidig a gweithgarwch dilynol posib a ragfyneir o'r prosiect. Bydd allbwn y prosiect yn arddangosiad neu'n frasfodel o'r datrysiad a gynnigir.

Sgôr 3 Rhoddir esboniad o'r effaith ddisgwylidig a gweithgarwch dilynol posib a ragfyneir o'r prosiect. Bydd allbwn y prosiect yn adroddiad a chyflwyniad dichonolrwydd ar gyfer y datrysiad a ragfyneir.

Sgôr 2 Rhoddir esboniad cyfyngedig o'r effaith ddisgwylidig a gweithgarwch dilynol posib a ragfyneir o'r prosiect. Bydd allbwn y prosiect yn adroddiad dichonolrwydd ar gyfer y datrysiad a ragfyneir.

Sgôr 1 Ni roddir llawer o esboniad o'r effaith ddisgwylidig a gweithgarwch dilynol posib a ragfyneir o'r prosiect. Bydd allbwn y prosiect yn gyflwyniad ar gyfer y datrysiad a ragfyneir.

Sgôr 0 Ni roddir esboniad o'r effaith ddisgwylidig a gweithgarwch dilynol posib a ragfyneir o'r prosiect. Nid yw allbwn y prosiect yn glir.

### **11. Rheoli Prosiect (gorfodol – wedi'i sgorio)**

Mae cynllun prosiect cadarn yn hanfodol i ddarpariaeth a llwyddiant y prosiect. Mae angen i brosiectau ddangos eu prif weithgareddau a darparu manylion y dull o fynd i'r afael â rheoli'r prosiect, gan gynnwys unrhyw offer a phrosesau fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer canlyniad llwyddiannus ac arloesol y prosiect. Mae angen i brosiectau dynnu sylw at y prif risgiau a chamau angenrheidiol y prosiect ar gyfer lleihau'r risgiau. Bydd prosiectau sy'n dangos cynllun prosiect a strategaeth risg clir ac effeithiol yn sgorio uchaf (uchafswm o 400 gair).

Sgôr 4 Rhoddir esboniad clir o'r dull o fynd i'r afael â rheoli'r prosiect, gan gynnwys tystiolaeth o'r offer a'r prosesau fydd yn cael eu defnyddio. Mae cynllun y prosiect yn disgrifio'n glir eu prif weithgareddau ac wedi tynnu sylw at y risgiau perthnasol, gan gynnwys y camau angenrheidiol effeithiol ar gyfer lleihau'r risgiau y cafodd eu canfod.

Sgôr 3 Rhoddir esboniad clir o'r dull o fynd i'r afael â rheoli'r prosiect, gan gynnwys tystiolaeth rannol o'r offer a'r prosesau fydd yn cael eu defnyddio. Mae cynllun y prosiect yn disgrifio'r prif weithgareddau ac wedi tynnu sylw at y risgiau mwyaf perthnasol, gan gynnwys y camau angenrheidiol effeithiol ar gyfer lleihau'r risgiau y cafodd eu canfod.

Sgôr 2 Rhoddir esboniad cyfyngedig o'r dull o fynd i'r afael â rheoli'r prosiect, gan gynnwys tystiolaeth rannol o'r offer a'r prosesau fydd yn cael eu defnyddio. Mae cynllun y prosiect yn disgrifio rhai o'r prif weithgareddau gofynnol ac wedi tynnu sylw at rai o'r risgiau mwyaf perthnasol, gan gynnwys y camau angenrheidiol ar gyfer lleihau'r risgiau y cafodd eu canfod.

Sgôr 1 Ni roddir llawer o esboniad o'r dull o fynd i'r afael â rheoli'r prosiect, ac nid oes digon o dystiolaeth o'r offer a'r prosesau fydd yn cael eu defnyddio. Mae'r cynllun prosiect yn gyfyngedig ac nid yw'n disgrifio'r prif weithgareddau'n glir. Nid oes llawer o risgiau wedi cael eu nodi ac mae'r camau angenrheidiol yn aneffeithiol.

Sgôr 0 Nid oes tystiolaeth wedi cael ei ddarparu o'r dull o fynd i'r afael â rheoli'r prosiect, ac nid oes tystiolaeth o'r offer a'r prosesau fydd yn cael eu defnyddio. Nid oes cynllun prosiect ac nid oes risgiau wedi cael eu nodi.

Gallwch atodi cynllun prosiect a chofrestr risgiau sydd hyd at ddwy dudalen o hyd yr un.

## **12. Polisi (gorfodol – heb ei sgorio)**

Dylai ymgeiswyr ddarparu manylion ar sut fydd eu prosiect yn mynd i'r afael â meysydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ni fydd yr ateb hwn yn cael ei werthuso na'i sgorio fel rhan o'r broses ymgeisio. Serch hynny, bydd manylion ynglŷn â sut fydd eich prosiect yn mynd i'r afael â'r Ddeddf yn ofynnol fel rhan o gais sy'n cydymffurfio. Mae manylion am y Ddeddf ar gael [yma](#) (uchafswm o 250 gair)

## **13. Cyllid y prosiect (gorfodol – wedi'i sgorio)**

Mae angen i brosiectau ddisgrifio cyllid y prosiect yn glir a chyfiawnhau cost y prosiect. Dylai prosiectau ddangos pam fod y costau yn hanfodol ar eu cyfer. Bydd ymgeiswyr yn dangos gwerth ar y farchnad sy'n deg ac yn disgrifio'n glir y cyfiawnhad am gostau'r prosiect yn derbyn y sgôr uchaf.

Sgôr 4 Rhoddir disgrifiad clir o gyllid y prosiect ac mae yna dystiolaeth glir yn dangos pam fod y costau yn hanfodol i'r prosiect. Mae costau'r prosiect yn cynrychioli gwerth y farchnad sy'n deg ac mae costau'r prosiect wedi cael eu cyfiawnhau.

Sgôr 3 Rhoddir disgrifiad o gyllid y prosiect ac mae yna dystiolaeth yn dangos pam fod y costau yn hanfodol i'r prosiect. Mae costau'r prosiect yn cynrychioli gwerth y farchnad sy'n deg ac mae costau'r prosiect wedi cael eu cyfiawnhau i ryw raddau.

Sgôr 2 Rhoddir disgrifiad cyfyngedig o gyllid y prosiect ac mae yna dystiolaeth rannol yn dangos pam fod y costau yn hanfodol i'r prosiect. Mae costau'r prosiect



yn cynrychioli gwerth y farchnad sy'n deg ac nid yw costau'r prosiect wedi cael eu cyfiawnhau yn gyfan gwbl.

Sgôr 1 Ni roddir llawer o ddisgrifiad o gyllid y prosiect ac nid oes yna ddigon o dystiolaeth yn dangos pam fod y costau yn hanfodol i'r prosiect. Gallai costau'r prosiect gynrychioli gwerth y farchnad sy'n deg mewn rhai meysydd ac nid yw costau'r prosiect wedi cael eu cyfiawnhau yn gyfan gwbl.

Sgôr 0 Ni roddir disgrifiad o gyllid y prosiect ac nid oes dystiolaeth yn dangos pam fod y costau yn hanfodol i'r prosiect. Nid yw costau'r prosiect yn cynrychioli gwerth y farchnad sy'n deg ac nid yw costau'r prosiect wedi cael eu cyfiawnhau.

### **Datganiad yr ymgeisydd (gofynnol)**

Mae disgwyl i'r prif ymgeisydd drafod y cais gyda'i gwmni ei hun, neu unrhyw gorff arall y bydd angen ei gydweithrediad wrth weithredu'r prosiect, cyn cyflwyno'r cais. Trwy gyflwyno'r cais rydych yn cadarnhau fod y wybodaeth rydych chi wedi ei ddarparu yn y cais hwn yn gyflawn a'ch bod yn cymryd rhan yn y prosiect yn ogystal â bod yn gyfrifol am reoli'r prosiect yn gyffredinol gan gytuno i weinyddu'r grant os yr ennillir ef.